



Gwneud hawliad trawsffiniol yn yr UE

Defnyddio'r Gorchymyn Ewropeaidd ar gyfer Gweithdrefn Talu neu Weithdrefn Hawliadau Bychain Ewropeaidd

Ble ddylwn i gychwyn fy hawliad?

Cyn ystyried siwio unigolyn neu gorff arall mewn gwlad wahanol, mae'n hanfodol sefydlu ymlaen llaw ble mae'n rhaid ichi gychwyn y fath achos. Mae'n werth cadw hyn mewn cof gan y gallwch wynebu costau ychwanegol ac anghyfleusterau wrth gychwyn eich achos mewn gwlad dramor. Er enghraifft, efallai bydd gofyn ichi gyfieithu'ch dogfennau, cyflogi cyfreithiwr neu deithio i wlad arall ar gyfer gwrandawiaadau llys.

Hawliadau pan fo'r diffynnydd mewn Aelod-wladwriaeth Ewropeaidd arall

Os yw'ch anghydfod yn erbyn unigolyn neu fusnes mewn Aelod-wladwriaeth arall, bydd rhaid ichi ganfod pa lysoedd yr Aelod-wladwriaethau sydd â'r awdurdodaeth i ymdrin â'ch achos. Mae awdurdodaeth achosion trawsffiniol wedi'u rheoli gan Reolaeth Cyngor UE (EC) Rhif 44/2001 ar awdurdodaeth ac ar gydnabod a gorfodi dyfarniadau materion sifil a masnachol, ac a adnabyddir fel arall fel Rheoliad Brwsel.

Fel arfer, man preswyllo arferol y diffynnydd yw'r wlad sydd â'r awdurdodaeth i brosesu'r achos. Rhaid siwio pobl sy'n preswyllo'n arferol mewn Aelod-wladwriaeth benodol, yn llysoedd yr Aelod-wladwriaeth honno, be bynnag bo'u cenedligrwydd.

Fodd bynnag, ceir eithriadau i hyn, fel y gellid cychwyn rhai hawliadau mewn Aelod-wladwriaeth arall heblaw yr un mae'r diffynnydd yn preswyllo ynddo. Mae'r eithriadau hyn yn digwydd yn bennaf mewn materion yn ymwneud â:

- ymrwymiad contract;
- achosion am iawndal;
- materion mewn perthynas â chynhaliaeth;
- contractau defnyddiwr, yswiriant a chontractau cyflogaeth unigol;
- patentau a nodau masnach; a
- pherchnogaeth neu denantiaeth eiddo ansymudol.

Er enghraifft -

Gellid siwio unigolyn o Ffrainc sy'n gwerthu beic modur, yn Lloegr os dyna ble roedd y beic modur i'w ddanfon.

Mewn achos damwain traffig a ddigwyddodd yn yr Almaen rhwng Almaenwr lleol ac ymwelydd o Loegr, gall yr hawlydd Almaeneg ddefnyddio llysoedd yr Almaen.

Fel dull amgen, gallwch hefyd ddewis siwio'r diffynnydd yn llysoedd yr Aelod wladwriaeth mae'r diffynnydd yn byw neu'n preswyllo ynddi.

Mae'r Rheoliad yn cynnig diogelwch arbennig i ddefnyddwyr, a allant siwio yn eu llysoedd eu hunain.

Sylwch mai ond crynodeb byr o'r pwyntiau allweddol yw'r disgrifiad uchod o Rheoliad Brwsel. Am fwy o wybodaeth, ewch at wefan y Rhwydwaith Farnwrol Ewropeaidd.

Tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

Mae Rheoliadau gwahanol yn gweithredu ar gyfer hawliadau yn cynnwys partïon mewn gwledydd tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ac sy'n aelodau o Gymdeithas Masnach Rydd Ewropeaidd. Rheolir rhain gan Confensiwn Lugano, 16 Medi 1988 ar Awdurdodaeth a gorfodi dyfarniadau ym materion sifil a masnachol. Ar hyn o bryd, heblaw am Aelod Wladwriaethau UE, mae'r Swistir, Norwy a Gwlad yr Ia yn bartïon contractio i'r confensiwn hwn.

Mae darpariaethau tebyg ar awdurdodaeth yn cymhwyso at bartïon dan y Confensiwn hwn.

Er enghraifft –

Gellid siwio Sais sy'n gwerthu lori, yn Norwy os dyna ble roedd y lori i'w danfon.

Cael cymorth

Efallai eich bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/legal-aid

Gallwch hefyd dderbyn cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim gan Ganolfan Cyfraith neu Ganolfan Gyngori ar www.adviceguide.org.uk

Os ydych yn ddefnyddiwr, gallwch hefyd gysylltu â Chanolfan Defnyddwyr Ewropeaidd y Deyrnas Unedig:

Canolfan Defnyddwyr Ewropeaidd y DU

Sefydliad Safonau Masnach

1 Sylvan Court, Sylvan Way

Southfields Business Park

Basildon, Essex SS15 6TH

(0)8456 04 05 03 (Dydd Llun i ddydd Gwener: 10am i 3pm) ecc@tsi.org.uk neu www.ukecc.net


Mae gan wefan Yr Atlas Comisiwn Barnwrol Ewropeaidd wybodaeth ar enwau a chyfeiriadau pob llys sifil yn yr Aelod Wladwriaethau a'r ardaloedd daearyddol maent yn delio â hwy, a gallwch ganfod yr wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen http://ec.europa.eu/justice_home/judicialatlascivil/html/index_en.htm

Os ydych am wneud hawliad traws-ffiniol, ceir nifer o ffyrdd o wneud hynny, ac mae gweddill y daflen hon yn rhoi mwy o wybodaeth ichi amdanynt.

Pa fath o hawliad ddylwn i ei wneud?

Gall y goeden penderfynu ganlynol eich helpu i benderfynu pa fath o hawliad i'w wneud.

Rwyf eisiau gwneud hawliad dros ffiniau'r UE



Trefn Gorchymyn Talu Ewropeaidd (GTE)

Beth yw'r Gorchymyn Talu Ewropeaidd?

Trefn newydd yw'r GTE sy'n ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i gredydwyr adennill dyledion nad ydynt yn cael eu gwrthwynebu mewn achosion trawsffiniol h.y. pan fo un o'r partïon yn byw mewn Aelod Wladwriaeth Ewropeaidd wahanol i'r wlad ble fydd yr achos yn digwydd. Mae'r drefn yn gweithredu ar sail ffurflenni safonol a phroses unffurf ar draws holl Aelod Wladwriaethau UE. Gellid defnyddio'r drefn i faterion sifil a materion masnachol, ac nid yw'n gofyn am ddefnyddio cyfreithiwr. Mae'r drefn yn ddewisol, a gellid ei defnyddio yn lle gweithdrefnau presennol dan gyfraith genedlaethol.

Ar ennill gorchymyn wrth ddefnyddio'r drefn hon, ni fydd rhaid i gredydwr gymryd camau rhyngol i orfodi'r penderfyniad mewn Aelod Wladwriaeth UE arall.

Ni allwch ddefnyddio'r drefn hon os yw'r hawliad:

- Yn erbyn Aelod Wladwriaeth o ganlyniad i'w gweithrediadau neu ei methiant i weithredu;
- Am eiddo sy'n ymwneud â phriodas neu ewyllys;
- Am fethdaliad neu ansolfedd;
- Yn ymwneud â nawdd cymdeithasol;
- Ddim yn gysylltiedig â chontract, oni bai bod cytundeb neu fod y ddyled wedi'i haddef;
- Am dalu dyledion allan o gyd-berchnogaeth eiddo;
- Ddim am swm penodol o arian, neu nad yw'r swm hwnn'n daladwy nawr.

Mae copi o'r Rheoliad wedi'i atodi i Ran 78 Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Rwy'n hawlydd - beth sydd rhaid imi ei wneud i gael GTE?

Mae'r holl ffurflenni ar gyfer GTE wedi'u hatodi i'r Rheoliadau. Maent ar gael hefyd ar wefan Atlas Barnwrol y Comisiwn Ewropeaidd - http://ec.europa.eu/justice_home/judicialatlascivil/html/index_en.htm. I gychwyn yr hawliad dylech lenwi Ffurflen A. Fe ofynnir ichi ddarparu digon o wybodaeth am y dystiolaeth sydd gennych i brofi'ch hawliad fel gall y diffynnydd benderfynu gwrthwynebu'r hawliad ai peidio. Mae gofynion penodol y mae'n rhaid ichi eu cyrraedd fel y sail dros awdurdodaeth y llys a natur drawsffiniol yr achos. Cyfeiriwch at y nodiadau canllaw sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais os gwelwch yn dda.

Beth fydd y gost?

Pan fyddwch wedi llenwi'ch ffurflen hawliad, dylech ei hanfon neu ei danfon i'r llys priodol. Bydd angen talu ffi llys am y broses hon. Mae'r ffi sy'n daladwy yn cael ei bennu gan swm yr hawliad. Mae canllawiau ar ffioedd llys i'w gweld yn nhaflen EX50 sydd ar gael ar y wefan farnwrol <http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do>

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y llys yn edrych i weld a yw'r ffurflen wedi'i llenwi'n gywir, a'i bod yn bodloni'r gofynion a osodwyd (h.y. natur drawsffiniol yr achos ym materion sifil a masnachol, awdurdodaeth y llys dan sylw, ayb).

Os yw'r amodau ar gyfer gwneud cais am orchymyn Ewropeaidd wedi'u cyrraedd, bydd y llys yn cyhoeddi ac yn cyflwyno'r gorchymyn cyn gynted â phosibl, ac fel arfer, o fewn 30 niwrnod i ffeilio'r cais. Nid yw'r cyfnod 30 niwrnod yn cynnwys yr amser a gymerir gan yr hawlydd i lenwi, cywiro neu newid ei gais/chais.

Mae gorchymyn talu Ewropeaidd yn rhoi gwybod i'r diffynnydd y gall un ai dalu cyfanswm yr hawliad, neu ei wrthwynebu. Pe gwrthwynebir yr hawliad, rhaid i'r diffynnydd ffeilio datganiad o wrthwynebiad yn y llys a gyhoeddodd y gorchymyn talu Ewropeaidd. Rhaid anfon y datganiad o wrthwynebiad o fewn 30 niwrnod o gyflwyno'r gorchymyn ar y diffynnydd.

Daw'r gorchymyn yn orchymyn y gellir ei orfodi yn awtomatig, oni bai i'r diffynnydd ffeilio datganiad o wrthwynebiad yn y llys gwreiddiol.

Os nad yw'r ffurflen gais yn gyflawn, bydd y llys yn dychwelyd y ffurflen ac yn rhoi cyfle i'r hawlydd i lenwi neu gywiro'r cais erbyn dyddiad penodol (o fewn 30 niwrnod fel arfer).

Pe byddai'r gofynion ond yn cyrraedd rhan o'r hawliad, gall y llys gynnig newid y cais. Er enghraifft, os yw credydwr yn ceisio hawlio swm o £4,000 ond dim ond yn gallu profi hanner y swm hwnnw, bydd y llys yn newid y GTE i £2,500. Gofynnir i'r hawlydd dderbyn y gorchymyn talu Ewropeaidd arfaethedig yn y swm a nodwyd gan y llys, o fewn 30 niwrnod.

Os derbyn yr hawlydd gynnig y llys, bydd y llys yn cyhoeddi GTE am y rhan o'r hawliad a dderbyniwyd gan yr hawlydd. Bydd y canlyniad mewn perthynas â'r rhan sy'n weddill o'r hawliad, yn cael ei reoli gan gyfraith genedlaethol. Pe byddai'r hawlydd yn methu ag ateb o fewn y terfyn amser a bennwyd gan y llys neu yn gwrthod cynnig y llys, bydd y llys yn gwrthod y cais am orchymyn talu yn ei gyfanrwydd.

Bydd y llys yn gwrthod cais os:

- yw'r cais yn methu cyrraedd yr amodau angenrheidiol;
- nad oes sail iddo;
- yw'r ceisyddion yn methu dychwelyd cais cyflawn neu gais wedi'i newid mewn pryd;
- yw'r ceisyddion yn methu ateb o fewn y terfyn amser, neu'n gwrthod newid arfaethedig y llys.

Nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ond nid yw hynny'n eich rhwystro rhag gwneud cais arall, efallai drwy ddefnyddio dull arall o hawliad.

Beth y gall y diffynnydd ei wneud?

Gall y sawl sy'n derbyn gorchymyn talu Ewropeaidd, h.y. y diffynnydd, ffeilio datganiad o wrthwynebiad yn y llys ble gyhoeddwyd y gorchymyn talu. Rhaid i'r datganiad o wrthwynebiad gael ei anfon o fewn 30 niwrnod o gyflwyno'r gorchymyn ar y diffynnydd. Defnyddir ffurflen F i ffeilio datganiadau o wrthwynebiad, ac fe anfonir y ffurflen gyda'r Gorchymyn Talu Ewropeaidd.

Gall y diffynnydd

- dalu'r swm sy'n ddyledus i chi;
- gallant wrthwynebu'r gorchymyn drwy lenwi a dychwelyd datganiad o wrthwynebiad o fewn 30 niwrnod o gyflwyno'r gorchymyn; neu
- gallant wneud dim o gwbl.

Beth fydd yn digwydd os bydd y diffynnydd yn gwrthwynebu?

Os bydd y diffynnydd yn gwrthwynebu'ch hawliad, bydd yr achos, fel arfer, yn cael ei drosglwyddo i system genedlaethol y wlad sy'n cychwyn yr achos. Efallai na fyddwch eisiau i hyn ddigwydd oherwydd e.e. dan y weithdrefn sifil gyffredin gall y costau fod yn uwch. Cewch ddewis peidio trosglwyddo'r achos i'r system genedlaethol trwy lenwi Atodiad 2 y ffurflen gais (ffurflen A)

Beth fydd yn digwydd os na fydd y diffynnydd yn gwneud dim o gwbl?

Os na fydd y diffynnydd yn ffeilio datganiad o wrthwynebiad yn y llys o fewn yr amser a osodwyd, bydd y llys yn cyhoeddi y gellir gorfodi'r Gorchymyn Talu Ewropeaidd ac yn anfon y cyhoeddiad atoch chi.

Sut mae gorfodi GTE?

Bydd GTE a ellir ei gorfodi yn cael ei thrin fel dyfarniad gan lys o'r Aelod Wladwriaeth ble rydych yn ceisio gorfodi'r hawliad.

Mae'r rheolau mewn perthynas â gorfodi yn amrywio o Aelod Wladwriaeth i Aelod Wladwriaeth. Ceir mwy o wybodaeth am Aelod Wladwriaethau eraill ar wefan y Rhwydwaith Barnwrol Ewropeaidd. Mae gan y Portal Ewropeaidd e-justice fwy o wybodaeth am orfodi mewn Aelod Wladwriaethau. Gellir canfod y wefan ar http://e-justice.europa.eu/content_enforcement_of_judgments-51-en.do

Rhaid ichi anfon copi o'r Gorchymyn Talu Ewropeaidd y cyhoeddwyd y gellid ei gorfodi, i awdurdodau'r Aelod Wladwriaeth honno, ac os bydd angen, cyfieithiad o'r gorchymyn i iaith yr Aelod Wladwriaeth honno.

Gorfodi yng Nghymru a Lloegr

Am yr opsiynau yng Nghymru a Lloegr, gweler taflen EX321 – Mae gennyf Ddyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu. Beth sydd rhaid i mi ei wneud?

Oes yna unrhyw beth a all atal gorfodi?

Pe cyrhaeddir gofynion penodol, gall y diffynnydd

- wneud cais am adolygu'r Gorchymyn Ewropeaidd;
- wneud cais i wrthod y gorfodi ;
- dan amgylchiadau cyfyngedig iawn, wneud cais i atal neu gyfyngu'r gorfodi.

Y Weithdrefn Hawliadau Bychain Ewropeaidd

Beth yw'r Weithdrefn Hawliadau Bychain Ewropeaidd?

Am y tro cyntaf, bydd y weithdrefn hawliadau bychain Ewropeaidd yn rhoi proses unffurf, cyflym a fforddiadwy i adennill dyled am hawliadau gwerth isel yn achosion trawsffiniol i ddefnyddwyr a busnesau o bob rhan o Ewrop. Bydd y weithdrefn yn cymhwyso at faterion sifil a masnachol pan fydd gwerth yr hawliad yn ddim mwy na 2000 EU. Mae'r weithdrefn yn cymhwyso at hawliadau am arian yn ogystal â hawliadau nad ydynt am arian.

Mae'r Weithdrefn Hawliadau Bychain Ewropeaidd yn cyflwyno ffurflenni safonol i'w defnyddio gan y partion a'r llys ar draws yr UE, ac yn gosod cyfyngiadau amser ar gyfer y partion a'r llys er mwyn symleiddio a chyflymu cyfreitha ynglŷn â hawliadau bychain.

Mae'r weithdrefn yn un ysgrifenedig, oni bai i'r llys ystyried bod angen gwrandawriad llafar. Gall y llys gynnal gwrandawriad neu gymryd tystiolaeth dros gynhadledd fideo neu dechnoleg gyfathrebu arall os yw'r gallu technegol ar gael. Nid oes rhaid ichi gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Fodd bynnag, pe byddai'r parti arall yn ceisio cynrychiolaeth gyfreithiol, gallwch fod yn atebol am y costau hynny petaech yn colli. Bydd y parti aflwyddiannus yn atebol am gostau'r achos, a fydd efallai yn cynnwys y fath gostau cyfreithiol. Fodd bynnag, gall y llys benderfynu peidio dyfarnu costau i'r parti llwyddiannus am eu bod wedi mynd i'r fath gost yn ddiangenrhaid neu eu bod yn anghymesur i'r hawliad.

Rhaid i ddyfarniad sy'n cael ei roi dan y weithdrefn hon gael ei gydnabod a'i orfodi yn awtomatig mewn Aelod Wladwriaeth arall a heb unrhyw bosibilrwydd o wrthod ei gydnabod.

Mae copi o'r Rheoliad llawn wedi'i atodi i Ran 78 Rheolau Gweithdrefn Sifil.

Ni ellid defnyddio'r weithdrefn mewn achosion yn ymwneud â

- statws neu alluedd cyfreithiol unigolyn naturiol;
- eiddo ynghlwm â phriodas neu ewyllys neu ymrwymadau cynhaliaeth;
- methdaliad neu ansolfedd;
- nawdd cymdeithasol;
- cyflafareddu;
- cyfraith cyflogaeth;
- tenantiaeth, ac eithrio achosion hawliadau am arian;
- preifatrwydd, difenwad.

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Mae'r holl ffurflenni ar gyfer Gweithdrefn Hawliadau Bychain Ewropeaidd ar gael ar wefan Atlas Barnwrol y Comisiwn Ewropeaidd - http://ec.europa.eu/justice_home/judicialatlascivil/html/index_en.htm. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r rhaid cychwyn hawliad yn y Llys Sirol. Mae'r weithdrefn yn cyflwyno ffurflenni safonol a rhaid defnyddio Ffurflen A i gychwyn achosion. Mae'r ffurflen ei hun yn cynnwys nodiadau canllaw manwl i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau canllaw'n ofalus. Gofynnir ichi roi digon o wybodaeth am y dystiolaeth sydd gennych i brofi eich hawliad, ac i alluogi'r diffynnydd i ddewis amddiffyn yr hawliad neu beidio. Gall hyn gynnwys unrhyw ddogfennau ategol os yn briodol

Beth fydd cost hyn?

Pan fyddwch wedi llenwi'ch ffurflen gais, anfonwch neu danfonwch y ffurflen i'r llys priodol. Mae ffi'n daladwy am y broses hon. Mae'r ffi'n dibynnu ar swm yr hawliad. Mae arweiniad ar ffioedd y llys yw cael ar y wefan cyfiawnder <http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do>

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os nad yw'r ffurflen yn cyrraedd y gofynion ar gyfer gweithdrefn hawliadau bychain Ewropeaidd, bydd eich hawliad yn cael ei throsglwyddo i weithdrefn genedlaethol y llys sy'n ymdrin â'r hawliad, oni bai eich bod yn gofyn am i'ch hawliad gael ei dynnu'n ôl e.e. oherwydd eich bod yn credu bydd costau'r achos dan y system genedlaethol yn rhy uchel.

Os yw'r ffurflen wedi'i chwblhau'n anghywir bydd y llys yn ei hanfon yn ôl atoch, ac yn rhoi 30 niwrnod ichi lenwi/gywiro'r ffurflen hawliad.

Os yw'r ffurflen wedi'i llenwi'n gywir, ac yn bodloni'r gofynion ar gyfer gweithdrefn hawliadau bychain Ewropeaidd, bydd y llys yn anfon copi o'r ffurflen hawliad a ffurflen ymateb at y diffynnydd er mwyn iddynt benderfynu amddiffyn yr hawliad ai peidio. Bydd gan y diffynnydd 30 niwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hawliad i ymateb i'r hawliad.

Beth all y diffynnydd ei wneud?

Gall y diffynnydd

- Dalu'r swm sy'n ddyledus i chi - dylech ddweud wrth y llys pe bai'n gwneud hynny;
- Wrthod eich hawliad yn gyfan gwbl neu ran ohono, neu wneud gwrth-hawliad; neu
- Wneud dim o gwbl.

Gall hefyd wneud cynnig i setlo. Eich penderfyniad chi fydd derbyn y cynnig ai peidio, ond ymchwiliwch i'r hyn fydd yn digwydd ynglyn â chostau'r hawliad.

Beth fydd yn digwydd os bydd y diffynnydd yn gwrthod yr hawliad neu'n gwneud gwrth-hawliad?

Byddwch yn derbyn copi o'r ffurflen amddiffyn a/neu'r gwrth-hawliad, a gallwch ddweud wrth y llys a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r amddiffyniad, ac os ydych yn anghytuno, dylech esbonio pam.

Bydd barnwr yn ystyried yr hawliad, a gall ofyn am fwy o wybodaeth gan y partion, gymryd tystiolaeth, neu eich gwysio i ddod i wrandawriad a allai fod drwy gynhadledd fideo neu dros y ffôn. Bydd y barnwr yn rhoi penderfyniad o fewn 30 niwrnod i unrhyw wrandawriad llafar neu ar ôl derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, a bydd copi o'r penderfyniad yn cael ei anfon at bob parti.

Beth fydd yn digwydd pe byddai'r diffynnydd yn gwneud dim o gwbl?

Os na fydd y diffynnydd wedi ymateb o fewn 30 niwrnod i'r llys gyflwyno'r hawliad, ac na fydd y barnwr eisiau gwybodaeth ychwanegol, tystiolaeth neu gynnal gwrandawriad, bydd yn rhoi penderfyniad. Bydd copi o'r penderfyniad yn cael ei anfon atoch.

Pa gostau eraill a allwn i eu hawlio pe byddwn yn ennill?

Mae'r costau eraill a ellid eu caniatáu ichi yn cynnwys:

- Unrhyw ffi llys rydych wedi ei dalu
- Costau'r achos (e.e. costau cyfieithu, ffi cyfreithwyr ayb).

IMae'n bwysig ichi nodi y bydd rhaid i'r parti aflwyddiannus dalu costau'r achos cyn belled â'u bod yn angenrheidiol a ddim yn anghymesur i'r achos.

Os bu imi golli, a allaf i apelio?

Mae'r hawl i apelio dan y weithdrefn hon yn cael ei benderfynnu gan bob un Aelod Wladwriaeth UE unigol. Yng Nghymru a Lloegr, gellir gwneud apêl yn unol â Rhan 52 Rheolau Gweithdrefn Sifil.

Sut y gallwn i orfodi'r hawliad?

Bydd dyfarniad y llys yn cael ei gydnabod ac yn gallu ei orfodi ym mhob Aelod Wladwriaeth UE. Ar dderbyn cais, gwnaiff y llys hefyd roi tystysgrif ynglyn â'r dyfarniad yn rhaid ac am ddim.

Mae'r rheolau ynglyn â gorfodi yn amrywio o Aelod Wladwriaeth i Aelod Wladwriaeth. Mae gan y Portal e-Justice Ewropeaidd fwy o wybodaeth am orfodi yn Aelod Wladwriaethau a gellid ei chanfod yn https://e-justice.europa.eu/content_enforcement_of_judgments-51-en.do

Rhaid ichi anfon copi o'r dyfarniad a chopi o dystysgrif dyfarniad Hawliadau Bychain Ewropeaidd at yr Aelod Wladwriaeth honno, ac os bydd angen, cyfieithiad i iaith yr Aelod Wladwriaeth honno.

Gorfodi yng Nghymru a Lloegr

Am holl opsiynau gorfodi yng Nghymru a Lloegr gweler taflen *EX321 - Mae gennyf Ddyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu. Beth sydd rhaid i mi ei wneud?*

A oes unrhyw beth a allai atal gorfodi?

Wrth gyrraedd rhai gofynion penodol y Rheoliad, gall y diffynnydd,

- Wneud cais i adolygu'r dyfarniad
- Wneud cais i wrthod y gorfodi
- Dan amgylchiadau cyfyngedig iawn, gall wneud cais i atal y gorfodi neu ei gyfyngu
- Apelio'r penderfyniad.